CLWB ACHREDEDIG Chwaraeon RhCT
Sport RCT CLUB ACCREDITATION

# RECRIWTIO a Chadw Gwirfoddolwyr

## Paratoi ymlaen llaw...

- Beth ydych chi angen ei roi ar waith cyn recriwtio?
- Sut y byddwch chi'n gofyn am gymorth?
- Sut y mae modd i chi gefnogi gwirfoddolwyr newydd?

## YSTYRIWCH Y CANLYNOL

- Disgrifiadau swyddi clir, gan gynnwys pa sgiliau sy'n hanfodol a faint o amser y bydd angen iddyn nhw ei ymrwymo i'r rôl
- Ffyrdd newydd i hyrwyddo eich rolau gwirfoddoli a phroses recriwtio groesawgar.
- Y ffyrdd y byddwch chi'n gwneud i'ch gwirfoddolwr newydd deimlo fel bod y person yn cael ei gefnogi ac yn rhan o'r clwb.

## AWGRYMIADAU...

**1 GOFYN am help!** Gan amlaf, mae pobl yn barod i helpu - dim ond gofyn sydd rhaid ei wneud!

Creu hysbyseb ar-lein a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Meddwl am ffyrdd creadigol i ofyn i aelodau presennol ac aelodau teulu trwy grwpiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Trefnu noson clwb neu bostio hysbysebion yn yr ardal leol.

**2 Archwiliwch rwydwaith eich clwb!** Pa sgiliau a/neu swyddi sydd gyda'ch aelodau a'u teuluoedd?

A oes unrhyw gyn-aelodau clwb neu aelodau o'r gymuned leol sydd â'r sgiliau neu'r profiad perthnasol i gefnogi eich clwb?

**3 Rhannwch y buddion o wirfoddoli gyda'ch clwb chi!**

A fydd eich clwb yn darparu cit, mynediad at gyrsiau a /neu wahoddiadau i achlysuron clwb/cymdeithasol fel gwobr? Bydd y rhain i gyd yn gwneud i wirfoddolwr newydd deimlo'n rhan o'ch clwb. Gwnewch yn siwr eu bod nhw'n deall sut y bydd eu cefnogaeth nhw yn fanteisiol i'ch clwb, eich aelodau a'r gymuned yn ehangach.

## SICRHAU BOD GWIRFODDOLWYR NEWYDD YN:

- cael sesiwn croeso/sefydlu
- deall eu rôl a'u cyfrifoldebau
- teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi
- deall gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau'r clwb
- gwybod at bwy i droi am gymorth
- teimlo'n rhan o'r clwb a bod gyda nhw'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i gyflawni'r rôl (gan gynnwys cit, hyfforddiant neu adnoddau).

## Sut y mae modd i ni helpu?

**Recriwtio gwirfoddolwyr:**
Mae modd i ni hyrwyddo eich cyfleoedd gwirfoddoli ar y cyfryngau cymdeithasol, ar ein gwefan ac ap, yn ogystal â'n rhwydwaith. Mae modd i ni eich helpu chi i greu hysbysebion a darparu enghreifftiau neu dempledi i chi recriwtio'n fewnol o fewn eich clwb.

**Cefnogi gwirfoddolwyr:**
Mae modd i ni eich helpu chi i wneud cais am gyllid er mwyn talu am gostau cyrsiau/hyfforddiant. Mae modd i ni hefyd ddarparu adnoddau a thempledi a fydd yn eu cefnogi nhw yn eu rôl.

**Cydnabod a Gwobrwyo eich Gwirfoddolwyr:**
Rydyn ni'n cydnabod ac yn gwobrwyo gwirfoddolwr yn y gymuned trwy ein cystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Mis'. Mae modd i ni hefyd ddarparu templedi 'diolch' y mae modd i chi eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

## CADW GWIRFODDOLWYR

Rhaid...

- **Gwerthfawrogi pob gwirfoddolwr!** Diolchwch iddyn nhw yn bersonol, yn gyhoeddus drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu yn ystod cyfarfod/achlysur clwb er mwyn ei wneud yn hyd yn oed yn fwy arbennig.
- **Datblygu pob gwirfoddolwr!** Anogwch wirfoddolwyr i ddatblygu a dysgu gan ei gilydd. Darparwch gyfleoedd hyfforddi os oes angen.
- **Cefnogi pob gwirfoddolwr!** Cadwch mewn cysylltiad a chynnig cymorth i bob gwirfoddolwr.

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk
Chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk

hamddenamoes leisureforlife
RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh